# Cofnodion Wedi'iGadarnhau
# Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
# Cyfarfod Cyhoeddus 6 Rhagfyr, 2022, 09:30
# Drwy Microsoft Teams

Wedi'iGadarnhau

| **Yn Bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Sian Griffiths | (SG) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd Cyhoeddus) |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwyr Anweithredol (Prifysgol) |
| Nick Elliott | (NE) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Chyfleusterau Digidol) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| Rob Bailey | (RB) | Cynrychiolydd Staff |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd |
| Fliss Bennee | (FB) | Pennaeth Data, Cyfarwyddiaeth Gwybodaeth (ar gyfer Eitem 4) |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr (ymunodd â'r cyfarfod am 10:05) |
| Ashley Gould | (AG) | Cyfarwyddwr Rhaglen – Uned Gwyddor Ymddygiad/Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus (ar gyfer Eitem 7) |
| Liz Heath | (LH) | Cynrychiolydd Staff |
| Rebecca Hill | (RH) | Uwch Arbenigwyr Iechyd Cyhoeddus |
| Dafydd James | (DJ) | Pennaeth Profiad a Gwasanaethau Digidol, Gwybodeg (ar gyfer Eitem 4) |
| Angela Jones | (AJo) | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| Kirsty Little | (KL) | Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus, Deallusrwydd Iechyd, Y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth |

| | | |
|---|---|---|
| Louisa Nolan | (LN) | Pennaeth Gwyddor Data, Y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth (ar gyfer Eitem 4) |
| Reanne Reffell | (RR) | Swyddog Cymorth y Bwrdd |
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd y Bwrdd |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Sumina Azam | (SA) | Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus, Polisi, Ymchwil a Datblygiad Rhyngwladol |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RBW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| John Boulton | (JB) | Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru |
| Helen Bushell | (HB) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig, Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Andrew Morton | (AM) | Swyddog Cymorth y Bwrdd |

*Dechreuodd y cyfarfod am 09:30*

**KRIC 1/2022.12.06 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu pawb a oedd yn bresennol. **Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion, ac byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod dilynol ym mis Mawrth 2023.

**Nododd** y Pwyllgor yr ymddiheuriadau.

**KRIC 2/2022.12.06 Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

**KRIC 3/2022.12.06 Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi**

**Derbyniodd** a **chymeradwyodd** y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2022.

**KRIC 3.1/2022.12.06 Diweddariad ar Gynnydd / Camau Gweithredu**

Rhoddodd IB ddiweddariad llafar i'r Pwyllgor ar y camau gweithredu a'r cynnydd ar y camau gweithredu agored sydd ar y Cofnod o Gamau Gweithredu.

Wedi'iGadarnhau

**Cam Gweithredu KRIC 3/2022.09.12**: Dywedodd IB fod trafodaethau'r Pwyllgor gyda'r Brifysgol Agored yn mynd rhagddynt yn dda, ac roeddent yn cynnwys y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth a'r Gyfarwyddiaeth Datblygu Sefydliadol a Phobl; y bwriad oedd datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Cam Gweithredu KRIC 5/2022.09.12**: Mae cyd-grŵp o'r Is-adran Sgrinio a'r Is-adran Ddata wedi dyfarnu contract yn dilyn cystadleuaeth agored, i ddatblygu a gweithredu cynnyrch, a'i droi yn system fyw fel rhan o'r rhaglen drawsnewid.
Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar ôl i'r Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso gael ei datblygu ymhellach; byddai hyn yn adeiladu ar gryfderau pob Prifysgol i wneud y mwyaf o'r buddion. Cynigiodd DC ei chymorth i gysylltu â Rhwydweithiau Prifysgolion.

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu gwahodd Kieran Walshe i drafod dulliau cydlynu mewn perthynas â'i waith gyda Llywodraeth Cymru. Cadarnhaodd IB y byddai'n mynd ar drywydd hyn
**Camau Gweithredu: IB/LB**

| **KRIC 4/2022.12.06** | **Strategaeth Digidol a Data** |
|---|---|
| **KRIC 4.1/2022.12.06** | **Diweddariad ar y Cynnydd gyda'r Strategaeth** |

Cyflwynodd IB DJ, FB ac LN i'r cyfarfod, a rhoddodd drosolwg ar ffurf cyflwyniad ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas â datblygiad y Strategaeth Digidol a Data.

Drwy gysylltiadau allanol, roedd IB yn gallu alinio strategaeth hirdymor Digidol a Data Iechyd Cyhoeddus Cymru â Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru a byddai'n adrodd yn rheolaidd ar gynnydd.

Gofynnodd IB a DJ am fewnbwn gan y Pwyllgor i ddatblygu'r strategaeth ymhellach.
Crynhowyd yr adborth yn y cyflwyniad.

Rhoddodd y Pwyllgor y sylwadau a ganlyn ar y materion cyfredol:

**Materion cyfredol:**
- Roedd cyflymder systemau TG yn amrywio mewn rhai meysydd gwaith, megis sgrinio.
- Roedd angen gwella rhyng-gysylltedd systemau, ac o ran sicrhau tryloywder.
- Yr angen i fod yn glir ynghylch y data yr oedd eu hangen ar Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac a oedd y systemau cywir ar waith i gasglu'r data hynny.
- Dylai fod pwrpas i'r data a gesglir, dylai wneud gwahaniaeth a dylai wella'r system.

Wedi'i Gadarnhau

- Roedd cydweithio yn faes allweddol, a dylid ystyried sut y gellid sicrhau bod data ar gael drwy ddull cydgysylltiedig drwy'r sefydliad cyfan a thu hwnt, gan gynnwys gweithio'n effeithiol gydag addysg uwch.
- Roedd angen datblygu llythrennedd digidol ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru ac ymysg y cyhoedd.
- Yr angen am un pwynt mynediad canolog i ddefnyddwyr allanol, a oedd yn darparu cysylltiadau â gweddill y Sefydliad mewn un lle.

**Rhwystrau a heriau o fewn y system:**

- Diffyg pwynt canolog ar gyfer llywio allanol.
- Yr angen i sganio gorwelion yn effeithiol.
- Angen sicrhau bod anghenion y defnyddiwr yn cael eu hystyried, er mwyn sicrhau eu bod yn hawdd eu defnyddio.
- Roedd gwytnwch data a mynediad at y system yn her, yn enwedig mewn cyfnodau o alw mawr
- Angen mynd i'r afael â safonau rhannu data a chytundebau rhannu data, er mwyn sicrhau cysondeb.

**Datblygiadau ar gyfer y Sefydliad yn y dyfodol:**

- Gwell cysylltiadau â'r gwahanol ffynonellau/mathau o ddata i greu ecosystem gysylltiedig o ddata sy'n benodol i'r maes astudio.
- Dylai'r system fod yn agored, yn hygyrch, yn hawdd ei llywio a dylai gynnwys data perthnasol a chyfredol.
- Dylai'r data fod yn ddigon manwl i alluogi hyblygrwydd wrth eu defnyddio.
- Pwysigrwydd sicrhau dibynadwyedd data'r sefydliad
- Angen bod yn glir a deall sut roedd y data'n cael eu defnyddio'n allanol.
- Cynllunio a buddsoddi effeithiol.

Diolchodd DJ i'r Pwyllgor am eu cyfraniadau i'r broses o ddatblygu'r Strategaeth. Nododd fod y themâu sy'n dod i'r amlwg, megis yr uchelgais i gael ecosystemau cysylltiedig a chael gwared ar rwystrau, yn gyson â gweithdai tebyg a gynhaliwyd.

Darparodd FB fanylion pellach ar ganlyniadau gweithdai blaenorol ac adleisiodd y tebygrwydd gyda'r adborth o'r cyfarfod hwn.

Amlinellodd IB y camau nesaf; byddai'r adborth gan y Pwyllgor yn bwydo i'r gwaith o ddatblygu cyfres o egwyddorion, a byddai'r strategaeth yn cael ei datblygu o'r rhain i gyd-fynd â Strategaeth Hirdymor y Sefydliad. Byddai'r Strategaeth amlinellol yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor hwn ym mis Mawrth 2023.

**Camau Gweithredu: IB**

Diolchodd SG i IB a'i dîm am y cyflwyniad a'r gweithdy cynhyrchiol ac roedd y Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael diweddariad mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Wedi'iGadarnhau

| KRIC 4.2/2022.12.06 | Adolygiad o Ddeallusrwydd Artiffisial |
| --- | --- |

Rhoddodd LN gyflwyniad o adolygiad ar Ddeallusrwydd Artiffisial mewn Iechyd a Gofal yng Nghymru; roedd yr adolygiad wedi'i gomisiynu gan Gadeiryddion Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gofal Iechyd Digidol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Esboniodd LN mai nodau'r adolygiad oedd:

- Deall pa fath o ddeallusrwydd artiffisial a gafodd ei roi ar waith/ei brofi ym maes gofal iechyd yng Nghymru.
- Adolygu enghreifftiau o ofal iechyd y tu allan i Gymru
- Deall y cyfleoedd a'r rhwystrau i fabwysiadu deallusrwydd artiffisial ymhellach mewn gofal iechyd yng Nghymru
- Gwneud argymhellion ar gyfer dyfodol deallusrwydd artiffisial mewn gofal iechyd yng Nghymru
- Canfuwyd bod deallusrwydd artiffisial yn cyflymu logisteg, yn gwella ansawdd, yn gwella'r broses o wneud penderfyniadau ac yn arbed arian.
- Yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, gellid defnyddio deallusrwydd artiffisial mewn nifer o ffyrdd: i ragfynegi effaith ar ddadansoddi risg; i awtomeiddio dosbarthiad codio; i ddatblygu botiaid sgwrsio i ryngweithio ag aelodau'r cyhoedd.
- Roedd rhai systemau deallusrwydd artiffisial prototeip wedi cael eu hadeiladu. Roedd pryderon yn ymwneud â'r angen am sgiliau a seilwaith a llywodraethu systemau gwaith.
- Roedd bwlch mawr rhwng cynnal yr ymchwil, datblygu prototeipiau, amgylcheddau diogel a gweithredu deallusrwydd artiffisial yn llawn.
- Nodwyd bwriad Llywodraeth Cymru i ymgorffori deallusrwydd artiffisial mewn gofal iechyd mewn strategaeth deallusrwydd artiffisial gyffredinol. Byddai'r adolygiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol y flwyddyn nesaf.

Diolchodd SG i LN am y cyflwyniad a gwahoddodd sylwadau gan aelodau'r Pwyllgor.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Y cyfle a gyflwynir gan ddeallusrwydd artiffisial, gan nodi'r angen am fodel llywodraethu cryf i sicrhau tryloywder.
- Cywirdeb delweddaeth deallusrwydd artiffisial, o'i gymharu â delweddaeth ddynol.
- Y meysydd mwyaf effeithiol ar gyfer defnyddio deallusrwydd artiffisial, megis y ddelweddaeth, a fyddai'n cynnig cyfle dysgu i'w gyflwyno ymhellach i leoliadau eraill yn y dyfodol.
- Yr angen i sicrhau cysylltiadau ag arweinwyr polisi perthnasol o fewn Llywodraeth Cymru a phartneriaethau amrywiol, er enghraifft y Gwasanaeth Genomeg.
- Y camau y dylid eu cymryd nawr i ddatblygu dealltwriaeth o'r cyfleoedd a gyflwynir gan ddeallusrwydd artiffisial

Wedi'iGadarnhau

Diolchodd SG i LN a'i thîm am yr adolygiad rhagorol gan edrych ymlaen at ddiweddariadau datblygu pellach maes o law.

| | |
|---|---|
| **KRIC 5/2022.12.06** | **Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso** |
| **KRIC 5.1/2022.12.06** | **Diweddariad ar y Cynnydd gyda'r Strategaeth** |

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan IB ar gynnydd y Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso.

Dywedodd IB wrth y Pwyllgor ei fod wedi nodi meysydd yn y strategaeth yr oedd angen mwy o waith arnynt. Roedd cyfarfod wedi'i drefnu gyda MK i bennu'r blaenoriaethau ynghylch heriau'n ymwneud ag iechyd y boblogaeth ac ymchwil.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Yr angen i sicrhau bod y strategaeth yn cwmpasu meysydd mewnol ac allanol. Dywedodd IB fod partneriaethau allanol yn cael eu hystyried, gan amlygu'r drafodaeth flaenorol ar gydweithio o fewn Prifysgolion a oedd ar y gweill.
- Yr angen i ddarparu cyfleoedd i weithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru wneud gwaith ymchwil ac nid dim ond cael eu hystyried yn gydweithwyr. Nododd IB hyn, a phwysleisiodd ymrwymiad y sefydliad i ddatblygiad proffesiynol parhaus ei holl weithwyr.
- Yr angen i ddatblygu'r cysylltiadau â'r byd academaidd ymhellach, gan nodi bod defnyddio dull academaidd o werthuso ymchwil wedi'i gydnabod yn dda ac wedi cymhwyso trylwyredd ymchwil a'r methodolegau llym, a fyddai o fudd i'r sefydliad.
- Awgrym i archwilio sut y gallai'r sefydliad wneud y mwyaf o unigolion yn cydweithio ag eraill o fewn isadrannau, adrannau neu Gyfarwyddiaethau.

**Ystyriodd** y Pwyllgor y wybodaeth a ddarparwyd yn y papur, a **chafodd sicrwydd** ynghylch y cynnydd hyd yma i adolygu a datblygu Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Byddai'r Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso yn cael ei chyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Mawrth 2023.
**Camau Gweithredu: IB**

| | |
|---|---|
| **KRIC 5.2/2022.12.06** | **Datblygu safonau sefydliadol: Casglu data ar gydraddoldeb ar gyfer ymchwil a gwerthuso** |

Darparodd IB ddiweddariad llafar ar y cynnydd o ran datblygu safonau i gasglu gwybodaeth am gydraddoldeb a oedd yn cyd-fynd â data'r cyfrifiad.

Roedd cwmni allanol wedi'i gyflogi i ganiatáu casglu adborth gan gwsmeriaid fel mater o drefn. Roedd data'r cyfrifiad diweddar bellach ar gael ac roedd

Wedi'iGadarnhau

rhaglen waith wedi dechrau i ganiatáu cysylltu data a gedwir gan y Sefydliad â'r data a ddarparwyd gan y cyfrifiad.

Diolchodd SG i IB am y diweddariad, a **nododd** y cynnydd a wnaed i wella cydraddoldeb wrth gasglu data ar gyfer ymchwil a gwerthuso.

| **KRIC 6/2022.12.06** | **Rheoli Risgiau** |
|---|---|

Atgoffodd LB y Pwyllgor fod un Risg Strategol (Risg Strategol 5) o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn i'w hadolygu er sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd rheoli'r risg hon o fewn y sefydliad. Cadarnhaodd hefyd nad oedd unrhyw Risgiau Corfforaethol ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar hyn o bryd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Crynhodd IB y diweddariad a ddarparwyd yn y papur, dywedodd y byddai'r tîm a oedd newydd ei benodi yn ei gyfarwyddiaeth yn gallu bwrw ymlaen â'r camau lliniaru i leihau'r risg.

Aeth y Pwyllgor ati i:
- **Ystyried** y Gofrestr Risgiau Strategol sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor.
- Cael **sicrwydd** bod risgiau Strategol y sefydliad yn cael eu rheoli'n briodol.

| **KRIC 7/2022.12.06** | **Sesiynau Craffu Manwl: Newid Ymddygiad** |
|---|---|

Estynnodd SG groeso i AG i'r Pwyllgor.

Rhoddodd AG gyflwyniad i'r Pwyllgor ar yr Uned Gwyddor Ymddygiad:
- Sefydlwyd yr Uned ym mis Mai 2022 i gefnogi ymarferwyr polisi ar draws ICC i ddatblygu polisi drwy ddarparu arbenigedd ar wyddor ymddygiad a datblygu'r modd y'i cymhwysir gyda'r nod o wella iechyd a llesiant yng Nghymru.
- Lleolwyd yr Uned o fewn Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd gyda mewnbwn strategol gan sefydliadau ar draws Ewrop
- Nod yr Uned oedd astudio ymddygiad yn systematig gan ddefnyddio cymysgedd o ddylanwadau gwybyddol, seicolegol, cymdeithasol ac amgylcheddol ar ymddygiad, a'i nod oedd pennu sut a pham y gwelwyd patrwm ymddygiad, yn hytrach na dibynnu ar ragdybiaethau, rhagfarn neu ddiffyg gwybodaeth.
- Roedd gwaith yr uned yn cwmpasu tri maes; Y cyhoedd (iechyd, ymddygiadau sy'n niweidio/diogelu iechyd a phenderfynyddion ehangach), Gweithwyr Proffesiynol, a Pholisi (wedi'u cynllunio i ysgogi newid)
- Ar hyn o bryd roedd yr Uned yn cydweithio'n barhaus â nifer o Gyfarwyddiaethau ac Is-adrannau o fewn y Sefydliad, er enghraifft Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru a Sgrinio Coluddion Cymru; darparu cyngor polisi a thechnegol.

Wedi'iGadarnhau

Diolchodd SG i AG am y cyflwyniad llawn gwybodaeth a gwahoddodd sylwadau gan y Pwyllgor.

Ystyriodd y Pwyllgor y canlynol:

- Gwaith rhagorol yr uned ers ei chreu, ac awgrymodd y gellid rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i sut y mae'r unedau'n gweithio.
- Rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru fel Sefydliad Iechyd Cyhoeddus, a rôl allweddol yr Uned wrth gyflawni'r rôl hon, er enghraifft drwy ei gwaith presennol ar argyfwng costau byw a'r angen i sicrhau cydnerthedd cymunedol drwy ddefnyddio gwyddor ymddygiad a newid ymddygiad.
- Awgrym y gellid datblygu'r Uned gan ddefnyddio rhanddeiliaid lluosog ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat; gallai datblygiad pellach gynnwys ffurfio grŵp cynghori a chyfranogiad aelodau'r cyhoedd.
- Sut y gellid cysylltu gwaith yr Uned â datblygiad polisi ar draws ICC. Cyfeiriodd AG at nifer o ymgyngoriadau parhaus ag uwch staff yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a arweiniodd at waith datblygu polisi.

Cytunodd AG i rannu'r dogfennau newid ymddygiad ('Gwella iechyd a llesiant: Canllaw i ddefnyddio gwyddor ymddygiadol mewn polisi ac ymarfer' ac 'Ymateb i'r argyfwng hinsawdd: defnyddio gwyddor ymddygiad') gyda'r Pwyllgor

**Camau Gweithredu: AG/LB**

Diolchodd SG i AG am y cyflwyniad a gofynnodd iddo roi diweddariadau i'r Pwyllgor am y gwaith yn ymwneud â Newid Ymddygiad.

**Camau Gweithredu: AG/LB**

| **KRIC 8/2022.12.06** | **Eitemau i'w Nodi** |
|---|---|
| **KRIC 8.1/2022.12.06** | **Diweddariad Polisi Chwemisol** |

**Nododd** y Pwyllgor y diweddariad Polisi Chwemisol.

| **KRIC 8.2/2022.12.06** | **Cynllun Gwaith y Pwyllgor** |
|---|---|

**Nododd** y Pwyllgor y Rhagolwg ar gyfer y Pwyllgor.

| **KRIC 8.3/2022.12.06** | **Adroddiad Archwilio** |
|---|---|

Dim.

| **KRIC 9/2022.09.21** | **Materion Gweinyddol i Gloi** |
|---|---|

Unrhyw fater arall: Dim

Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i roi eu hadborth ar y cyfarfod drwy e-bost gan gynnwys yr hyn a weithiodd yn dda, ac unrhyw feysydd i wella arnynt.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 8 Mawrth 2023.

*Daeth y cyfarfod i ben am 12:00*

Wedi'i Gadarnhau